Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mehefin 2018

Amser: 15.09 – 16.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4747

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Vikki Howells AC Rhianon Passmore AC Lee Waters AC
Tystion:	Andrew Slade, Llywodraeth Cymru Simon Jones, Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock
Staff y Pwyllgor:	Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Glerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Sian Thomas (Ymchwilydd)

1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Trafod y materion allweddol

1.1 Trafododd yr Aelodau y papur materion allweddol a gofynnodd bod drafft cychwynnol o argymhellion posibl yn cael ei baratoi er mwyn eu hystyried.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 Trafododd y Pwyllgor gynnwys y llythyr ar heriau digidoleiddio gydag Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd Aelodau bod y Clercod yn trafod y posibilrwydd o sefydlu grŵp rapporteur ynghyd ag Aelodau o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

3.1 Adroddiad(au) Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad blwyddyn gyntaf o sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.2 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (10 Mai 2018)

3.3 Heriau digidoleiddio: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (16 Mai 2018)

4 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, a Simon Jones, Cyfarwyddwr, Seilwaith

Economaidd, Llywodraeth Cymru ar Wasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn

4.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon manylion am berfformiad prydlondeb y gwasanaeth awyr a nifer o weithiau y cafodd y gwasanaeth ei ganslo am resymau technegol o gymharu â pherfformiad y gwasanaeth o dan weithredwyr eraill ers 2014.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ofyn am fanylion y contract, pan y'i dyfernir.